



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Cynadleddau i ddathlu gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru

Together with BASW Cymru, we're hosting two free conferences in Cardiff and Llandudno this autumn.

Cyhoeddwyd gyntaf: 13 Medi 2023

Diweddariad olaf: 10 Hydref 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](https://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gweithwyr-cymdeithasol/cynadleddau-gwaith-cymdeithasol> am y fersiwn diweddaraf.

Ynghyd â [BASW Cymru](#), rydyn ni'n cynnal dwy gynhadledd am ddim yng Nghaerdydd a Llandudno yr hydref hwn.

Mae ein cynadleddau Dathlu gwaith cymdeithasol, a noddir gan [TEC Cymru](#), yn gyfle i bobl sy'n gweithio ym maes gwaith cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig ymarferwyr a myfyrwyr, glywed gan siaradwyr ysbrydoledig a dod at ei gilydd i rannu ffyrdd o weithio.

Cynhelir y cynadleddau ar:

- **26 Hydref yng Nghanolfan All Nations, Caerdydd**
- **9 Tachwedd yn Venue Cymru, Llandudno.**

Ymhlith y siaradwyr sydd wedi'u cadarnhau mae Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn ein cynhadledd yng Nghaerdydd, ac Albert Heaney CBE, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, a fydd yn ein cynhadledd yn Llandudno. Bydd Rhoda Emlyn Jones, OBE, Ymgynghorydd gwaith cymdeithasol annibynnol, hefyd yn siarad yn y ddwy gynhadledd.

Byddwn ni hefyd yn cynnal gweithdai gan ymarferwyr gofal cymdeithasol, cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac academyddion gwaith cymdeithasol. Bydd y gweithdai yn cynnwys lleisiau pobl sydd â phrofiad byw.

Bydd digwyddiad panel hefyd, dan gadeiryddiaeth Abyd Quinn Aziz, Cyfarwyddwr y rhaglen MA mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd y panel yn cynnwys ymarferwyr, cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a chynrychiolwyr o BASW Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru.

## Teithio i'r cynadleddau

- **Venue Cymru, Llandudno**

Mae Venue Cymru tua hanner milltir o orsaf drenau Llandudno.

Cewch wybodaeth ar sut i deithio yna ar fws, trên neu gar [ar wefan Venue Cymru](#).

- **Canolfan All Nations, Caerdydd**

Mae'r ganolfan tua 300 metr o'r safle bws agosaf, a tua milltir o'r orsaf drenau agosaf.

Cewch wybodaeth ar sut i deithio yna ar fws, trên neu gar [ar wefan Canolfan All Nations](#).

## Canllawiau cynhadledd

### Canllaw cynhadledd: Caerdydd

Gwybodaeth am y siaradwyr, gweithdai ac aelodau'r panel.

### Canllaw cynhadledd: Llandudno

Gwybodaeth am y siaradwyr, gweithdai ac aelodau'r panel.